# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD MAWRTH, 24AIN MEHEFIN, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 16 Mehefin 2025)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Menna Baines | Meryl Roberts | Paul John Rowlinson |
| Jina Gwyrfai | Elin Walker Jones | |

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd-Jones | John Pughe Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor –

### Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol

| | |
|---|---|
| Natham Abrams | Iddewiaeth |
| Jean Owen | Ffydd Bahá'í |
| Mr Mohamed Arabi | Islam |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Bethan Davies Jones | Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg |
| Edward Parri-Jones | Dyneiddiwr |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Dr Sibani Roy | Hindwaeth |
| Rev. Nick Sissons | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Patrycja Bielak Smith | Bwdhaeth |
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Heledd Jones | NEU |
| Emma Roberts | UCAC |
| Vacant Seat - NAHT | NAHT |

### Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Eleri Moss | Penaethiaid Uwchradd |

## Ymgynghorydd Annibynnol:

Philip Lord

# R H A G L E N

**1.** **ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**2.** **IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**3.** **GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL**

**4.** **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**5.** **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**6.** **MATERION BRYS**

I nodi unrhyw fater brys yn ôl barn y Cadeirydd i'w ystyried.

**7.** **COFNODION** 5 - 9

Y Cadeirydd i gynnig bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2025 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

**8.** **MATERION YN CODI** 10 - 19

**9.** **CYFIEITHU'R ANGHYFIEITHADWY**

I dderbyn cyflwyniad gan Jennie Downs ar Gynefin a datblygiad ysbrydol ym maes y Dyniaethau.

**10.** **DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU** 20 - 21

I dderbyn dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu diweddar gan Estyn.

**11.** **CYNNWYS ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYSAG** 22 - 29

- I dderbyn y cyflwyniad.
- I drafod diben a chynnwys Adroddiadau Blynyddol CYSAG.

**12.** **CYFLEOEDD CGM/AG OBLYGOL AR GYFER BLWYDDYN 10 A 11** 30 - 57

I dderbyn cyflwyniad ar y cyfleoedd sydd ar gael i ysgolion i ddarparu Addysg Grefyddol orfodol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11.

**13.** **CCYSAGAUC** 58 - 72

- I dderbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas ar 6 Mawrth 2025.
- Nodi'r llythyr at Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.
- Er gwybodaeth: Cyfarfod nesaf CCYSAGauC – 2 Gorffennaf 2025, yn cael ei gynnal yn rhithiol gan Ynys Môn.

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL

## 04/02/2025

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Dewi Jones, Paul Rowlinson, Anne Lloyd-Jones, John Pughe Roberts a Elin Walker Jones.

**Eraill:**

**Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol :** Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru).

**Athrawon :**

**Swyddogion** : Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Rhodri Jones a Jasmine Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**Aelodau Cyfetholedig**: Eleri Moss (Penaethiaid Uwchradd).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Eitem 7**: Dr Gareth Evans-Jones

**1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi o fyfyrdod gan y Cynghorydd Anne Lloyd-Jones.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)
- Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd)

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2023/24**

Penderfynwyd gohirio’r eitem hon i’r cyfarfod nesaf.

**7. DIWEDDARIAD AR ADRODDIAD DDARPARIAETH ADDYSGU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG MEWN YSGOLION YNG NGHYMRU**

Cyflwynwyd yr eitem gan Dr Gareth Evans-Jones, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Agorwyd y cyflwyniad drwy roi cyd-destun ynghylch y Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, a gafodd ei hail-lansio ym mis Awst 2023 yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Adroddwyd mai amcan y Ganolfan yw hybu astudiaeth, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o’r amrywiaeth o draddodiadau crefyddol, gwerthoedd a thraddodiadau athronyddol sy’n bodoli yng Nghymru a’r byd ehangach.

Nodwyd bod y Ganolfan, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi trefnu a chynnal sawl sesiwn a nifer o weithgareddau:

- Trefnwyd sesiwn adolygu Lefel A fewnol i fyfyrwyr Ynys Môn, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin.
- Cynhaliwyd pythefnos o sesiynau adolygu Lefel A ar-lein, gan gwmpasu 24 sesiwn ar Athroniaeth, Moeseg a Bwdhaeth.
- Darparwyd hyfforddiant DPP i athrawon ar addysgu Bwdhaeth ac Hindŵaeth.
- Cynhaliwyd ysgol haf ar-lein ym mis Gorffennaf, gyda 15 o ddarlithoedd i gyflwyno myfyrwyr i bynciau lefel prifysgol mewn athroniaeth, moeseg a chrefydd.
- Cynhaliwyd panel ar addysgeg yr Holocost, a threfnwyd sgwrs ar-lein gan un o oroeswyr yr Holocost ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Trefnwyd sgyrsiau arbennig gyda Nerys Siddall (Mary Jones) a Hanan Issa (Bardd Cenedlaethol Cymru).
- Cynhyrchwyd adnodd addysgiadol ‘Heddwch yn ein Haddysg’, sef cronfa o wersi a deunyddiau ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 7/8/9 i’w defnyddio yng nghyd-destun pwnc Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg neu fel rhan o’r cwrs Dyniaethau Cymysg.
- Cynhyrchwyd 10 blwch arteffactau crefydd-benodol ar gyfer addysgu prif grefyddau’r byd, sydd ar gael i’w benthyg i ysgolion.

Esboniwyd bod y prosiect ymchwil wedi’i ddatblygu o ganlyniad i geisiadau athrawon ysgolion i’r Ganolfan i gael eu cynorthwyo ynglŷn â’u hanghenion penodol ar gyfer addysgu Safon Uwch, Addysg Grefyddol ac Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn yr adrannau iau hyd at TGAU. Nodwyd bod y prosiect ymchwil wedi para naw mis ac yn edrych ar ddarpariaeth addysgu CGM ledled Cymru. Nodwyd mai diben yr holiadur oedd cael gwell syniad o’r heriau y mae athrawon yn teimlo eu bod yn eu hwynebu, pa gryfderau sy’n bodoli, a pha agweddau sy’n wan ar hyn o bryd, er mwyn i’r Ganolfan allu ymateb a chynnal cyfres o sesiynau datblygu.

Amlygwyd bod 58 o ysgolion wedi ymateb, ond gan fod nifer yr ysgolion uwchradd a ymatebodd yn uwch, penderfynwyd llunio adroddiad ar sail y data uwchradd. Nodwyd bod enghreifftiau da o

athrawon yn manteisio ar ac ymgysylltu â chyfleoedd hyfforddiant, ond bod enghreifftiau hefyd a oedd yn codi pryderon.

Nodwyd bod y pwnc CGM yn cael ei addysgu naill ai fel pwnc annibynnol neu fel rhan o gynllun Dyniaethau Cymysg hyd at TGAU, gan fod y TGAU yn parhau i fod yn Addysg Grefyddol. Amlygwyd bod pryder wedi codi o ganlyniad i hyn ynglŷn â cholli arbenigedd pwnc ac ynghylch y ffaith bod athrawon sy'n addysgu'r pwnc heb gael eu hyfforddi'n ddigonol. Nodwyd bod hyfforddiant wedi'i greu er mwyn addysgu'r pwnc o fewn Dyniaethau Cymysg ond nid yn unigol. Ymhelaethwyd bod y diffyg hyfforddiant hwn yn peri pryder gan fod natur y pwnc mor sensitif.

Nodwyd mai un gwerslyfr CGM swyddogol sy'n bodoli – yn Saesneg, heb fersiwn cyfrwng Cymraeg cyfatebol. Nodwyd nad yw wedi derbyn sêl bendith CBAC na Llywodraeth Cymru - yr esboniad a gynigiwyd ganddynt oedd nad oes angen un gwerslyfr ar gyfer pawb o ystyried natur holistig y cwricwlwm yng Nghymru. Ehangwyd bod cais i gyfieithu'r gwerslyfr wedi'i wrthod gan y cyhoeddwr.

Nodwyd bod heriau systematig yn bodoli o fewn CGM, yn benodol o ran yr ansicrwydd ynghylch y term 'mandadol' a'r amser statudol sydd angen ei roi i'r pwnc, gan nad oes eglurhad clir o beth mae hyn yn ei olygu. Ymhelaethwyd, ar gyfartaledd, nad yw CGM yn derbyn yr un dyraniad amser â phynciau eraill.

Tanlinellwyd bod rhai ysgolion yn dal i roi'r hen ofynion statudol o un awr yr wythnos i bob disgybl, tra bod ysgolion eraill yn rhoi dim ond un awr y flwyddyn. Nodwyd bod amwysedd ynghylch dilyniant RVE a dulliau asesu wedi gadael addysgwyr yn chwilio am ganllawiau cliriach a strategaethau trawsgwricwlaidd.

Adroddwyd bod y Ganolfan yn cynnal sgyrsiau gyda CYSAGau ynglŷn â chanfyddiadau'r ymchwil ynghylch sut i helpu. Mynegwyd bod canfyddiadau'r adroddiad wedi derbyn beirniadaeth gan gyngor canolog CYSAGau, gan ei gyhuddo o fod yn rhy negyddol ac nid yn adlewyrchiad teg o'r farn gyffredinol oherwydd y nifer a oedd wedi ymateb i'r holiadur.

Nodwyd bod y Ganolfan wedi cymryd camau i gynhyrchu ail adroddiad, i geisio cynnal ymweliadau a sgyrsiau unigol ag athrawon er mwyn clywed mwy am farn athrawon. Tanlinellwyd bod y sgyrsiau hyn yn mynd i fod yn hollol gyfrinachol, ac mae gan athrawon hawl tynnu eu cyfyngiadau'n ôl ar unrhyw adeg. Nodwyd bod chwe ymweliad wedi'u cynnal hyd yma, gan ganolbwyntio'n benodol ar Ogledd-Orllewin Cymru yn ystod y cyfnod hwn o'r ymchwiliad. Ymhelaethwyd eu bod yn chwilio am athrawon bodlon mewn ysgolion uwchradd sy'n dysgu CGM, Dyniaethau Cymysg neu Addysg Grefyddol i gymryd rhan yn yr ymchwiliad, gan ofyn i GYSAG Gwynedd rannu'r alwad hon gydag athrawon yng Ngwynedd.

Nodwyd sawl mater arall sydd wedi codi ac yn peri pryder:

- Bod cwrs byr TGAU wedi'i ddiddymu.
- Bod rhai ysgolion ddim yn cynnig Addysg Grefyddol o gwbl fel pwnc TGAU.
- Bod rhai ysgolion yn cynnig Astudiaethau Cymdeithasol yn lle Addysg Grefyddol oherwydd eu bod yn swnio'n fwy difyr.
- Bod y TGAU Addysg Grefyddol newydd, er ei fod yn cynnwys agweddau diddorol, hefyd yn cynnwys rhai sydd wedi dyddio (e.e. dim sôn am ddeallusrwydd artiffisial).

Nodwyd bod y Ganolfan wedi dechrau ymateb i rai o'r pryderon sydd wedi'u codi yn yr adroddiad. Nodwyd bod y Ganolfan yn cydweithio â CHYSAG Conwy ac Abertawe i ddarparu sesiynau fin nos ar wahanol agweddau ar CGM. Nodwyd ymhellach ei bod wedi creu cynllun mentoriaeth athrawon. Nodwyd y byddai, ym mis Chwefror 2025, rhaglen fentora am ddim yn cael ei lansio i athrawon fydd yn gorfod addysgu Astudiaethau Crefyddol ar lefel TGAU ond nad ydynt wedi'u hyfforddi mewn AC/AG/CGM.

Ymhelaethwyd fod y cynllun yn para 15 mis, gyda dyddiad cau cyflwyno cais ym mis Ebrill 2025 a diwrnod dechrau'r cynllun ym mis Medi 2025. Nodwyd bod lle i 20 ar y cwrs hwn, gyda'r gobaith o ymestyn y cynllun i gymhwyso Safon Uwch o'r flwyddyn nesaf ymlaen, gan ddibynnu ar gael mwy o nawdd. Amlinellwyd bod modd rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau'r cwrs gydag aelodau'r CYSAG os dymunir.

Nodwyd ymhellach bod y Ganolfan yn cynnal Sesiynau Adolygu Safon Uwch a Safon Uwch-Gyfrannol yn ystod y Pasg, wrth ganolbwyntio ar y meysydd Bwdhaeth, Athroniaeth, Moeseg a Christnogaeth

Mynegwyd bod y Ganolfan yn barod i ymateb i unrhyw ymateb neu alwad am y canlynol drwy gyfrwng y Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog:

- Ymweld ag ysgolion.
- Darparu sesiynau adolygu/hyfforddiant.
- Rhannu adnoddau.
- Cyfeirio at fudiadau/mannau perthnasol.

Nodwyd bod digwyddiad ar 11 Mehefin ar gyfer ysgolion cynradd yn benodol, lle bydd sesiynau amrywiol yn edrych ar gynefin ac y bydd cyfeiriad at nifer o lefydd yng Ngwynedd a enwyd ar ôl mannau o'r Beibl. Nodwyd ymhellach bod, yn ystod y prynhawn (6.00y.h. – 9.30y.h.), cynhadledd i'r cyhoedd i edrych ar dirweddau beiblaidd yn ehangach.

Diolchwyd am y diweddariad cynhwysfawr. Cytunwyd i helpu drwy ofyn i GYSAG Gwynedd rannu'r alwad am athrawon i gymryd rhan yng ngham dau o'r ymchwil. Holwyd ynglŷn â beth mae'r Ganolfan yn ei wneud i geisio cynyddu'r niferoedd o fyfyrwyr sy'n dewis Addysg Grefyddol ar gyfer TGAU, gan fod tystiolaeth yn dangos bod y niferoedd sy'n mynychu'r cyrsiau'n gostwng.

Cytunwyd bod y niferoedd sy'n dewis astudio Addysg Grefyddol yng Nghymru yn lleihau ar bob lefel, yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod cyfle wedi'i fethu wrth greu'r TGAU newydd i wreiddio'r pwnc yn y byd go iawn. Nodwyd ymhellach bod diffyg dilyniant gan fod y TGAU wedi dewis cadw'r enw Addysg Grefyddol ac nid ei newid i CGM. Mynegwyd bod cyfle i godi diddordeb pan gaiff Lefel A newydd ei gyhoeddi fewn dwy flynedd, gan ei ddiweddaru i adlewyrchu'r byd modern sy'n dal i gadw'r cyfanrwydd pynciol.

Mynegwyd diolch pellach am y cyflwyniad a'r adroddiad, wrth fynegi bodlonrwydd am y drafodaeth. Cymeradwywyd y teitl newydd, CGM, gan nodi ei fod yn adlewyrchu cyd-destun modern. Mynegwyd parodrwydd i roi cymorth mewn unrhyw fodd gyda'r gwaith mae'r Ganolfan yn ei wneud. Diolchwyd am y sylwadau, gan nodi mai'r prif gymorth y dymunir ei dderbyn yw ynglŷn â'r ail adroddiad, yn benodol o ran ymgysylltu ag athrawon i gymryd rhan yn yr ymweliadau cyfrinachol. Nodwyd mai ei brif bwrpas yw rhoi llais i athrawon er mwyn amlygu'r problemau sydd yn bodoli o fewn y maes.

Nodwyd bod un ysgol yn y Gogledd, flynyddoedd lawer yn ôl, wedi atal cynnig Addysg Grefyddol fel pwnc Lefel A oherwydd diffyg staffio, gan nodi eu bod erbyn hyn wedi cyrraedd sefyllfa debyg ynghylch TGAU. Cwestiynwyd a oes modd gwneud rhywbeth gyda phlant iau i geisio codi diddordeb i barhau gyda'r pwnc ar lefelau uwch. Mynegwyd parodrwydd ar ran yr Adran Addysg i gynorthwyo drwy gynnal sesiynau i danio diddordeb yn y pwnc gyda disgyblion Blwyddyn 8/9 cyn iddynt wneud penderfyniadau TGAU.

Cytunwyd y byddai hyn yn syniad da a bod angen trafodaeth bellach. Nodwyd bod CYSAG Abertawe wedi adrodd am sawl ysgol sydd wedi profi diffyg staffio mewn Addysg Grefyddol ar ôl i athrawon y pwnc ymddeol.

Cwestiynwyd Dr Gareth Evans-Jones ynglŷn â'r sylw bod yr ymateb gan CYSAGau Cymru wedi bod yn negyddol ei agwedd. Nodwyd, mewn ymateb, bod sawl aelod craidd wedi beirniadu bod camliwio wedi bod ar yr adroddiad. Nodwyd bod sawl aelod o Fwrdd Rheoli CYSAGau Cymru ynghlwm â Chwricwlwm Newydd Cymru a CGM, ac yn hynod gefnogol o'r dull Dyniaethau Cymysg. Ymhelaethwyd bod CYSAGau Cymru bellach wedi rhyddhau holiadur ei hun er mwyn clywed barn athrawon. Mynegwyd bod hyn yn gadarnhaol gan ei bod yn bwysig cael cymaint o ymateb ag sy'n bosibl, ond nodwyd fod rhai o'r cwestiynau yn arweiniol. Nodwyd mai bwriad adroddiad y Ganolfan yw bod mor ddiduedd â phosibl. Nodwyd bod adroddiad CYSAGau Cymru wedi'i dderbyn gan GYSAG Gwynedd ac y caiff ei rannu gyda'r aelodau cyn bo hir.

Gwahoddwyd Dr Gareth Evans-Jones i fynychu eto ar adeg ddiweddarach i roi diweddariad pellach yn dilyn ail gam o'i waith ymchwil.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.40 y.p. a daeth i ben am 4:50 y.p.

---

**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2023 – Awst 2024

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Gwern ap Rhisiart

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Menna Baines

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2023 - 2024
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.5 Arweiniad CYSAG Gwynedd i aelodau sy'n mynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion

## ADRAN 1:
## CRYNODEB GWEITHREDOL

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

**Y Cynghorydd Menna Baines**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2023/2024**

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Roedd CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

Yn sgil dyfodiad Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 a sefydlu'r Gwricwlwm i Gymru, cynhaliwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Gwynedd ar y 15fed o Chwefror 2022. Penderfyniad unfrydol y Gynhadledd oedd argymell i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel ei fod yn weithredol o Fedi 2022.

Ar y 13 o Fedi 2022 cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd argymhelliad y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a mabwysiadwyd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel Maes Llafur Cytunedig ar gyfer ysgolion Gwynedd.

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Yn y gorffennol, bu CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 9 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Roedd clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog adnoddau addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnwyd i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fyddai ESTYN yn arolygu'r ysgol. Oherwydd sefyllfa COVID-19 fe ddaeth ymweliadau ESTYN i ben yn ystod Mawrth 2020. O Fedi 2021 hyd Awst 2022 ni fu ESTYN yn ymgymryd â rhaglen arolygu lawn, rhai ysgolion yn unig a wirfoddolodd i beilota trefniadau arolygu diwygiedig. Ail-gychwynodd rhaglen arolygu ESTYN ar ei newydd wedd yn Medi 2023 . Ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd ddarparu hunan-arfarniadau yn sgil y newidiadau a wnaed.

#### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni thrafodwyd asesiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2023-2024.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mair Huws, Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac i Gyngor Gwynedd.

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAG Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Ym mis Mawrth 2018, hysbyswyd clerc CYSAG Gwynedd na fyddai GwE yn cefnogi CYSAG Gwynedd bellach.

Bu i ysgolion cynradd weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn statudol o Fedi 2022 a dechreuodd rhai ysgolion Uwchradd ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yr un pryd gyda eraill yn oedi hyd Medi 2023. Mae addysg felly yn parhau i fod ynghanol cyfnod o newid mawr, a wnaeth hi'n amhosibl monitro safonau o fewn Addysg grefyddol yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn trafodaeth gyda GwE cafwyd cytundeb y byddai Bethan James, ymgynghorydd gyda GwE yn ail-gychwyn cefnogi CYSAG Gwynedd o dymor yr Hydref 2023. Yn anffodus daeth y newyddion trist ar ddechrau 2024 am farwolaeth ddisymwth Bethan James cyn iddi fedru ymgymryd yn llawn â'r rôl.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod CYSAG Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad strategol priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel pwyllgor statudol.

## 2.5 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Llywodraeth Cymru

**Cwricwlwm i Gymru**

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.
- Bu gwaith ymgynghori cynhwysfawr ar y Canllawiau o fis Mawrth 2020 ymlaen ac fe fu Cymdeithas CYSAGauCymru yn ran annatod o'u creu. Ffrwyth llafur yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yw'r canllaw a gyhoeddwyd bellach gan Lywodraeth Cymru.
- Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 y Cwricwlwm i Gymru o dan y gyfraith, gan ddisodli'r cwricwlwm sylfaenol (sy'n cynnwys, er enghraifft, y cwricwla cenedlaethol a lleol a nodir yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002).
- Mae'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 yn nodi pedwar diben y cwricwlwm o dan y gyfraith. Mae hefyd yn nodi elfennau mandadol (gan cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg fel un ohonynt) sy'n rhychwantu continwwm dysgu 3 i 16 oed.
- Daeth y Cwricwlwm i Gymru i rym mewn Ysgolion Cynradd ar y 1/09/2023 ac mae Ysgolion Uwchradd yn gweithio tuag at ei weithredu o Medi 2023 ymlaen (os nad ydynt yn ei weithredu eisoes)
- Mae'r *Canllawiau ar Grefydd,Gwerthoedd a Moeseg* ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 y Ddeddf, a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o fewn y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

## 2.6 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)

- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion ac athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau'r arolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
    - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017);
    - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Ni dderbyniwyd unrhyw hunan arfarniad yn ystod 2023-2024 gan na ofynnwyd i unrhyw ysgol ei ddarparu.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**a) Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

**b) Adolygwyd y Cyfansoddiad gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn Ebrill 2019 fel a ganlyn:**

- **Cristnogaeth a Chrefyddau eraill –** cadw yn 6. Cynnig gwahodd un cynrychiolydd o'r credoau Bwdaeth, Islam, Hindwaeth, Iddewiaeth, Siciaeth a'r Dyneiddwyr
- **Athrawon a Phenaethiaid -** cadw yn 5 cynrychiolydd o Undebau llafur athrawon
- **Aelodau Etholedig -** cadw yn 7
- **Cyfetholedig -** Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau
- 3 pleidlais sydd sef 1 i bob Grŵp, nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig

**c) Adolygwyd y cyfansoddiad ymhellach yn ystod Medi 2022 gan addasu'r grŵp athrawon fel a ganlyn:**

- Athrawon a Phenaethiaid – Cadw nifer y seddi ar 5

Dyrannu'r seddi fel a ganlyn:

3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd (NAS/UWT; UCAC ; NEU; ASCL a'r NAHT – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd)

1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2023-24

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch Nick Sissons |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Eurfryn Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Gwawr Maelor Williams |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Naomi Wood |
| Undeb yr Annibynwyr | Bethan Davies Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | Eirian Bradley Roberts |
| Bwdaeth | Patrycja Bielak Smith |
| Dyneiddwyr | Edward Parri-Jones |
| Iddewiaeth | Nathan Abrams |
| Islam | Mr Mohamed Arabi |
| Hindw | Dr Sibani Roy |

**Cynrychiolwyr Athrawon**

| | |
|---|---|
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Emma Roberts (Ysgol Botwnnog) |
| Cymdeithas yr Ysgolfestri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| NEU Cymru | Mrs Heledd Owen (Ysgol Friars) |
| Grŵp Penaethiaid Uwchradd | Eleri Moss (Ysgol y Moelwyn) |
| Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig | *Disgwyl enwebiad* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Paul Rowlinson | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Meryl Roberts | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Menna Baines | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Jina Gwyrfai | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Elin Walker Jones | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Anne Lloyd Jones | Annibynnol |
| Cynghorydd John Pughe Roberts | Annibynnol |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gwern ap Rhisiart | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mair Huws | Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol |
| Rhodri Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2023-24

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2023– 2024, cyfarfu CYSAG Gwynedd 2 waith trwy gyfrwng Zoom:

21 Tachwedd 2023
2 Gorffennaf 2024

Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau, bu'n rhaid canslo cyfarfod y 6ed o Chwefror 2024.

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rhain yn y cofnodion ac yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 21 Tachwedd 2023**

- Cadarnhawyd fod y Pennaeth Addysg ar y pryd wedi bod mewn trafodaethau gyda GwE i adfer y gefnogaeth a chadarnhawyd y bydd Bethan James yn cefnogi o hyn ymlaen. Adroddwyd na fydd y gefnogaeth ar yr un lefel ag a oedd yn flaenorol, ond y bydd Bethan James yn mynychu cyfarfodydd CYSAG ac yn rhoi hanner diwrnod o gefnogaeth, ac fel man cychwyn y bydd yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

- Cafwyd adroddiad gan y Parchedig Nick Sissons ar y Canllawiau Addoli ar y Cyd presennol. Teimlai bod y canllawiau presennol wedi dyddio a bod angen Gwaith sylweddol arnynt. Serch hynny, awgrymodd nad oedd gwerth mewn mynd drwy'r ddogfen bresennol a'i haddasu gan fod materion ehangach angen sylw, yn enwedig yr angen i adolygu'r ddeddfwriaeth ar addoli ar y cyd. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd bod CYSAG Gwynedd yn ysgrifennu llythyr at CCYSAGauC a chyrff cenedlaethol yr holl eglwysi yng Nghymru i holi sut fyddai modd iddynt fod o gymorth i symud y mater yn ei flaen.

**b) Cyfarfod 2 Gorffennaf 2024**

- Ail-etholwyd y Cyng Menna Baines yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Meryl Roberts yn Is-gadeirydd.

- Cafwyd adroddiad gan Nia Elain Roberts, Swyddog Ymgysylltu Pererindodau Ysgolion Prosiect Llan. Adroddwyd bod y prosiect yn derbyn cefnogaeth Cronfa Efengylu'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer datblygu pererindod o fewn yr Esgobaeth a dysgu'r Gymraeg. Ymhelaethwyd bod y prosiect wedi cael ei ariannu am 7 mlynedd. Un o brif nodau y prosiect yw ysgogi athrawon i ddefnyddio'r thema 'pererindod' o fewn eu gwaith dosbarth yn ogystal â hyrwyddo hanes crefyddol a'r iaith Gymraeg. Pwysleisiwyd bod y prosiect yma ar gael i bob ysgol, nid dim ond ysgolion eglwys a byddai pecynnau gwersi, ymweliadau a chyflwyniadau ar gael i holl ysgolion.

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mair Huws, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel clerc CYSAG
Rhodri Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sy'n gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

### 3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru

- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi hefyd i:**


- Aelodau CYSAG Gwynedd

**DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU**
***(Medi 2024 – Mawrth 2025)***

<table>
<tr><th colspan="2">Ysgol</th><th>Dyddiad arolygu</th><th>Adroddiad wedi'i gyhoeddi</th></tr>
<tr><td>Ysgol Maenofferen</td><td>Y Sgwâr, Blaenau Ffestiniog (219 ar y gofrestr)</td><td>24/03/2025</td><td>30/05/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol yn addas. Er enghraifft, yn y gwasanaethau bore, mae cyfleoedd iddynt fyfyrio ar faterion moesegol a dysgu am bwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd a pharchu hawliau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn deall bod pawb yn wahanol, gan gynnwys teuluoedd amrywiol, ac mae'r disgyblion hynaf yn ymwybodol o ddylanwad pobl ddu enwog mewn digwyddiadau pwysig mewn hanes.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bodfeurig</td><td>Sling, Tregarth (52 ar y gofrestr)</td><td>24/03/2025</td><td>30/05/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Dim sylwadau.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Penybryn</td><td>Tywyn (236 ar y gofrestr)</td><td>17/03/2025</td><td>22/05/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae disgyblion yn datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a chreadigol gwerthfawr, sy'n cefnogi eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol a'u gwerthfawrogiad yn gadarn.<br><br>Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd a'u hardal leol yn effeithiol, er enghraifft drwy ddysgu am hanes y Cymry ym Mhatagonia a rheilffordd yr arfordir. Mae athrawon hefyd yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac amrywiaeth. Mae disgyblion yn trin eraill gyda pharch ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Rhiwlas</td><td>Rhiwlas, Bangor (34 ar y gofrestr)</td><td>03/02/2025</td><td>07/04/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Yn y sesiynau llawn, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am foesau a gwerthoedd pwysig fel caredigrwydd a pharch at eraill. Mae hyn yn effeithiol gan ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'r angen i drin pawb a phopeth yn y gymdeithas gyda pharch.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Glan y Môr (Ysgol Uwchradd)</td><td>Ffordd Caerdydd, Pwllheli (469 ar y gofrestr)</td><td>02/12/2024</td><td>06/02/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu'n ysbrydol ac yn foesol trwy ddysgu am amrywiaeth, hawliau dynol, moeseg a dinasyddiaeth. Er enghraifft, mae'r Senedd ysgol wedi codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd goddefgarwch drwy arwain 'Prosiect Parch' yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Treferthyr</td><td>Cricieth (115 ar y gofrestr)</td><td>25/11/2024</td><td>30/01/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r pennaeth a'r staff yn hyrwyddo gwerthoedd moesol ac yn gosod disgwyliadau uchel fel cwrteisi a meithrin parch ymhlith disgyblion.<br><br>Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol yn dda. Er enghraifft, mewn gwasanaethau llawn, maent yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig gan gynnwys dangos caredigrwydd a phwysleisio pwysigrwydd hawliau</td></tr>
</table>


| | | | |
|---|---|---|---|
| *plant o fewn cymdeithas. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion hynaf gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu perswadio nad yw hiliaeth yn dderbyniol mewn cymdeithas.* | | | |
| Ysgol Borth-y-Gest | Borth-y-Gest, Porthmadog (31 ar y gofrestr) | 18/11/2024 | 23/01/2025 |
| *Mae staff yn darparu cwricwlwm pwrpasol, eang, diddorol a chyffrous sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn llwyddiannus.*<br><br>*Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Trwy gyflwyno themâu fel teyrngarwch, hawliau ac empathi, mae disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill yn llwyddiannus. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol ohonynt eu hunain ac o unigolion sy'n wahanol iddynt.* | | | |
| Ysgol O.M. Edwards | Llanuwchllyn. Y Bala (77 ar y gofrestr) | 07/10/2024 | 09/12/2024 |
| *Mae staff yn cyfoethogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus iawn gyda chysylltiadau cymunedol gwerthfawr. Er enghraifft, mae disgyblion yn chwarae rhan greiddiol wrth gymryd rhan mewn gwahanol wasanaethau, yn cystadlu yn yr eisteddfod leol ac yn casglu sbwriel i wneud yr ardal leol yn fwy deniadol. O ganlyniad, mae cyfleoedd yn cyfrannu at ddatblygu disgyblion i fod yn ddinasyddion cydwybodol sy'n ymfalchïo yn y gymuned a'u hamgylchedd.*<br><br>*Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol mewn gwasanaethau, sy'n cynnwys gwahodd ymwelwyr i'r ysgol a thrwy drefnu ymweliadau addysgol gwerthfawr. Mae disgyblion yn dysgu am grefyddau eraill a materion byd-eang sy'n digwydd mewn gwahanol ddiwylliannau.* | | | |
| Ysgol Gynradd Abererch | Abererch, Pwllheli (71 ar y gofrestr) | 30/09/2024 | 02/12/2024 |
| *Mae'r staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r disgyblion.*<br><br>*Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a chyfoethog i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig. Maent yn dathlu gwahaniaethau o fewn cymdeithas yn ystod gwasanaethau wythnosol a gweithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd yn effeithiol.* | | | |

# Adroddiadau Blynyddol CYSAG





Eitem 11

# Cefndir


accac
QUALIFICATIONS CURRICULUM & ASSESSMENT AUTHORITY FOR WALES
Annual SACRE Reports
Guidance on focus and structure

# Gofynion Adroddiad Blynyddol





Tud. 24

Rhaid i adroddiadau CYSAG yn ôl y gyfraith:

- nodi unrhyw faterion y mae CYSAG wedi rhoi cyngor i'r AALI mewn perthynas â hwy
- disgrifio'n fras natur y cyngor a roddwyd, a
- pan nad oedd unrhyw fater o'r fath wedi'i gyfeirio at y CYSAG gan yr AALI, rhowch resymau CYSAG dros gynnig cyngor ar y mater hwnnw.

- Bydd y cyngor a roddir yn berthnasol i ysgolion o fewn yr AALI sy'n dilyn y maes llafur y cytunwyd arno yn lleol ac ni fyddai o reidrwydd yn berthnasol i ysgolion sy'n dilyn gofynion gwahanol. e.e. maes llafur yr esgobaeth,

# Y Ffocws Presennol a Argymhellir:





Tud. 25

Dylai adroddiadau CYSAG ddilyn strwythur cyffredin a dylent ddarparu Gwybodaeth glir, gryno, gyda ffocws. Argymhellir y strwythur canlynol:

**Cynnwys** Dylai pob adroddiad CYSAG gynnwys tudalen gynnwys.

**Crynodeb Gweithredol** Dylai'r adran hon gynnwys crynodeb byr o'r cyngor a roddwyd i'r AALI o fewn y cyfnod adrodd, sy'n nodi a yw'r AALI wedi gweithredu ar y cyngor a roddwyd neu'n bwriadu gweithredu arno.

# Y Ffocws Presennol a Argymhellir:




Tud. 26


Dylai adroddiadau CYSAG ddilyn strwythur cyffredin a dylent ddarparu Gwybodaeth glir, gryno, gyda ffocws. Argymhellir y strwythur canlynol;

**Cyngor i'r AALI** Rhaid i brif gorff yr adroddiad gynnwys cyngor ar:

- addysg grefyddol, yn unol â'r maes llafur y cytunwyd arno yn lleol
- dulliau addysgu
- y dewis o ddeunyddiau addysgu
- y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant i athrawon
- addoli ar y cyd.

Yn ogystal, dylai'r adroddiad gynnwys cyngor ar faterion eraill, ynghyd â sut y gallai'r AALI ymateb i faterion lleol a chenedlaethol.

# Beth sydd wedi Newid




Nid yw'r ddogfen Canllawiau'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar hyn o bryd, gan mai dim ond mewn copi caled y mae ar gael, ac efallai na fydd gan lawer o Awdurdodau Lleol fynediad at hyn.


Mae'r iaith wedi dyddio mewn perthynas â Chwricwlwm Cymru, CGM a deddfwriaeth ynghylch CYSAG/CYS. Mae hefyd wedi dyddio o ran strwythur yr ALI.

Mae angen diweddaru'r cyngor ar Addoli ar y Cyd o ran yr iaith a ddefnyddir.

# Adolygiad Adroddiad Blynyddol:



# Beth Nesaf?




Mae angen ail-ysgrifennu'r ddogfen yn hytrach na'i diweddaru.

Cytunwyd ar ofynion disgwyliedig Adroddiadau blynyddol CYS(AG).

Dylai'r adroddiad blynyddol fod yn gyfle i'r CYS(AG)au a'r Awdurdodau Lleol i ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dylai hefyd gynllunio ymlaen i'r flwyddyn nesaf (*cynllun rheoli*).

Mae adolygiad o adroddiadau blynyddol i gael ei gwblhau o bryd i'w gilydd ledled Cymru, er mwyn nodi arfer dda y gellir ei rhannu



# Cwricwlwm i Gymru

## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg



# Curriculum for Wales

## Religion, Values and Ethics


Eitem 12


Click for Slide Notes



Tud. 30

GwE
GwEGogledd.Cymru
@GwEGogleddCymru
post@gwegogledd.cymru


Llywodraeth Cymru Welsh Government
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
English
Hwb®
Dewislen
Mewngofnodi
Cofrestru
Hafan > Cwricwlwm i Gymru
Cwricwlwm i Gymru
Dechrau arni
Cyflwyniad i ganllawiau
Crynodeb o'r ddeddfwriaeth
Cynllunio'ch cwricwlwm


Llywodraeth Cymru Welsh Government
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
Cymraeg
Hwb®
Menu
Log in
Sign up
Home > Curriculum for Wales
Curriculum for Wales
Getting started
Introduction to Curriculum
Summary of legislation
Designing your curriculum


Llywodraeth Cymru Welsh Government
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
English
Hwb®
Dewislen
Mewngofnodi
Cofrestru
Hafan > Cwricwlwm i Gymru > Crynodeb o'r ddeddfwriaeth
Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth
Rhan o Cwricwlwm i Gymru
CYNNWYS
Crynodeb o'r ddeddfwriaeth
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – cyflwyniad
Ysgolion a gynhelir ac ysgolion
Crynodeb o'r ddeddfwriaeth
Nod yr adran hon o ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw helpu ysgolion a lleoliadau, yn ogystal ag eraill ym maes addysg sydd â diddordeb, i feithrin dealltwriaeth well o'r gyfraith mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru a'r hyn sy'n ofynnol ganddyn nhw.


Llywodraeth Cymru Welsh Government
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
Cymraeg
Hwb®
Menu
Log in
Sign up
Home > Curriculum for Wales > Summary of legislation
Curriculum for Wales: summary of legislation
Part of Curriculum for Wales
CONTENTS
Legislation summary
Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 – an introduction
Maintained schools and maintained nursery schools
Funded non-maintained
Legislation summary
This section of the Curriculum for Wales framework guidance is designed to help schools and settings, as well as others in education with an interest, to better understand what the law is for the Curriculum for Wales and what is required of them.
In addition to setting out the legal basis for guidance, it also provides

# Crefydd, gwerthoedd a moeseg

## Statws cyfreithiol y canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg

**Mandadol**

Y cadeirydd cyntaf oedd yr Archddiacon, John Alex Lewis o Forgannwg Ganol, yr Is-Ganghellor, Wyndham Davis o Orllewin Morgannwg, yr Ysgrifennydd, Gavin Craigan o Glwyd a'r Trysorydd John Mitson o Bowys. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yng Nghlwyd ar Fehefin 8fed, 1995. Erbyn 1996 roedd yr ad-drefnu wedi digwydd, a chynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC yn Llangefni ar Orffennaf 11eg. Roedd yn bleser mawr bod 18 o'r 22 awdurdod newydd wedi gallu anfon cynrychiolwyr. Y cynrychiolwyr hyn oedd Cyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Addysg. Roedd hyn yn allweddol i lwyddiant sefydlu CCYSAGauC, wrth i’r Gymdeithas gael ei chefnogi ar y lefel uchaf gan y Cyfarwyddwyr Addysg a'u dirprwyon. Rwy'n credu mai un o'r cryfderau drwy gydol yr adeg oedd cefnogaeth yr Awdurdodau Lleol ac mae’r ymgynghorwyr wedi bod yn allweddol.

Deuthum o hyd i gopi o'r holl swyddogion o 1995 hyd at 2000. Awgrymaf y gallai fod yn ddiddorol arddangos hwn ar wefan CCYSAGauC.

Rwyf am gyfeirio at un neu ddau o enwau, Gavin Craigan a oedd yn allweddol i'r sefydlu ac i'w llwyddiant fel Ysgrifennydd cyntaf CCYSAGauC. Dilynwyd ef gan Hywel Evans, a fu’n

swyddog am dros 10 mlynedd, yn Ysgrifennydd ac yna yn Ysgrifennydd Cynorthwyol. Roedd Hywel Evans yn bwysig iawn, oherwydd ef oedd Cadeirydd Cyngor Cwricwlwm Cymru. Ar yr adeg allweddol honno, llwyddodd i bontio'r bwlch hwnnw'n effeithiol iawn. Dilynwyd ef gan y Canon Edward Evans, yn Ysgrifennydd Cynorthwyol, ac fel y gwyddom, mae EE yn ôl eto fel Cadeirydd ac mae wedi gwneud cyfraniad gwych dros y blynyddoedd.

Ers ei greu, mae CCYSAGauC wedi meithrin perthnasoedd da iawn gyda Chyngor Cwricwlwm Cymru, PYCAG, ACAC ac yn fwy diweddar gyda Llywodraeth Cymru.

Llwyddodd CCYSAGauC i gyflawni ei hamcanion o ran cydweithredu a chydweithio a lles Addysg Grefyddol. Ni fyddai AG mewn sefyllfa mor iach mewn ysgolion yng Nghymru oni bai am CCYSAGauC.

Diolchodd EE i RT a mynegodd ei ddiolchgarwch bod RT a JM ill dau yn mynychu cyfarfod heddiw.

**2. Myfyrdod tawel**

Arweiniodd EE fyfyrdod tawel wrth edrych ymlaen:

Bydd y rhai ohonom sydd wedi bod yn rhan o CCYSAGauC yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ymwybodol o sut mae'r Gymdeithas wedi tyfu o ran statws a sut mae wedi dod i gael ei pharchu gan lawer o sefydliadau sy'n gysylltiedig ag addysg yng Nghymru. Rydym yn bartneriaid uchel ein parch gyda Llywodraeth Cymru, Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, ADEW ac eraill. Mae'r perthnasoedd hyn yn golygu bod CCYSAGauC ar flaen y gad o ran hyrwyddo Addysg Grefyddol (CGM) yng Nghymru. Mae'n fraint gennym fod yn rhan o drafodaethau lefel uchel gyda'r holl sefydliadau hyn sy'n galluogi llais yr ymarferydd, yn ogystal â'r CYS lleol, i gael ei glywed a chael rhywfaint o ddylanwad. Heddiw, mae 20 allan o'r 22 cyngor ymgynghorol sefydlog yng Nghymru yn tanysgrifio i waith CCYSAGauC ac yn ei gefnogi. Pan fydd CCYSAGauC yn siarad, mae'n cynrychioli'r CYSau hynny o bob cwr o Gymru, ac yn hyn o beth, mae ganddi'r awdurdod i siarad a thrwy ein haelodau, swyddogion, cynghorwyr ac aelodau cysylltiol ymroeddedig CCYSAGauC, rydym wedi creu teulu o unigolion a grwpiau o'r un anian sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel ar gyfer darparu CGM, Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru.

Diolchwn i'r CYSau hynny am eu cefnogaeth barhaus, ac edrychwn ymlaen at gryfhau perthnasoedd gan barhau i fod yn agored i rai newydd.

Mae llawer o heriau yn wynebu CGM fel pwnc. Mae nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio Astudiaethau Crefyddol ar lefel TGAU a Safon Uwch yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Mae gennym y cyfle perffaith gyda CGM i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd nad ydym wedi'i gwneud o'r blaen.

Gyda chwmpas ehangach y pwnc, gall ysgolion bellach ddarparu yn eu cwricwlwm pwrpasol CGM sy'n archwilio materion y gorffennol a materion cyfoes sydd o bwys mawr i bobl ifanc yng Nghymru. Eu helpu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt i lywio trwy'n byd cyflym, newidiol ac amrywiol. Mae'n amlwg o'r ffilm lwyddiannus a ryddhawyd yn ddiweddar ac a gafodd glod mawr, fod CGM yn wirioneddol bwysig. Mae'n cwmpasu cynifer o agweddau ar y byd sydd ohoni. Cynlluniwyd y ffilm i ddenu sylw myfyrwyr heddiw.

Mae pobl ifanc heddiw â diddordeb mawr ac yn ymwneud yn fawr â llawer o agweddau sy'n effeithio ar ein bywydau beunyddiol, gwleidyddiaeth, moeseg a chadwraeth. Yn ystod fy amser yn gweithio gydag ysgolion lleol, rydw i wedi cael llawer o sgyrsiau diddorol gyda myfyrwyr ar bynciau fel, a yw hi byth yn iawn lladd? A yw rhyfel byth yn gyfiawn? Beth am y gosb eithaf, hunanladdiad â chymorth, a phynciau eraill o'r fath sydd ym meddyliau'r cyhoedd heddiw, mae pobl ifanc â diddordeb gwirioneddol mewn pynciau fel hyn, ac mae CGM yn rhoi'r cyfle iddynt archwilio'r materion pwysig hyn yn fanylach o safbwyntiau

crefyddol ac anghrefyddol. Fodd bynnag, os yw hynny i weithio'n effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, rhaid i ni sicrhau bod y dull o gyflwyno CGM yn yr ysgol yn diwallu anghenion a hawliau ein dysgwyr, a dyna lle mae gan y CYSAGau a CCYSAGauC rôl allweddol iawn i'w chwarae. Mae CCYSAGAUC yn cydnabod ac yn parchu'r ffaith ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu ei faes llafur cytûn ei hun. Gweithiodd y gymdeithas yn galed i sicrhau bod llais CYSau lleol yn cael ei glywed a'i wrando arno o fewn y broses o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Darparodd CCYSAGauC Swyddogion Gweithredol i helpu Llywodraeth Cymru i ddrafftio'r canllawiau statudol ar gyfer CGM, ac mae'n parhau i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad yn genedlaethol, pryd a lle bynnag y bo angen, gan barchu ymreolaeth pob CYS. Er enghraifft, mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i baratoi cyfres o restrau chwarae, sydd bellach ar blatfform Hwb. Mae'r rhain yn debyg iawn i gyflwyniadau PowerPoint rhyngweithiol, ac maent ar gael i bawb. Mae pob un yn gosod llinell sylfaen ar gyfer gwybodaeth hanfodol i gynulleidfa benodol neu ar bwnc penodol, heb danseilio penderfyniad lleol, ond gan gynnig cefnogaeth sylfaenol i CYSau adeiladu arni os dymunant. Dyma'r math o gydweithrediad yr ydym yn gobeithio ei weld yn parhau. Mewn oes lle mae mwy a mwy o angen cydweithrediad, mae gwaith CCYSAGauC yn hanfodol. Mae'r pynciau a drafodir yn ei chyfarfodydd Gweithredol ac yn ein cyfarfodydd tymhorol yn amrywiol iawn. Mae ei chyd-destun yn gynyddol bwysig, ac mae ei gwaith gyda PYCAG yn cryfhau safle CGM yn yr ystafell ddosbarth.

Y llynedd cynhaliodd CCYSAGAUC gynhadledd a werthfawrogwyd yn fawr gan gynifer. Yn seiliedig ar lwyddiant y gynhadledd honno, mae mwy wedi'u cynllunio, a fydd yn galluogi ymarferwyr a'r rhai sy'n ymwneud â CGM i ddod ynghyd i annog ac archwilio dulliau cyflwyno newydd ac arloesol. Mae CCYSAGauC yn ymwybodol o'r pryder sydd ymhlith athrawon y pwnc. Nod prosiect ymchwil academaidd o'r enw 'Prosiect Llais yr Athro – CGM yn y Cwricwlwm i Gymru' yw ceisio sefydlu beth yw'r meysydd pryder gwirioneddol. Byddwn yn clywed mwy am hyn yn ddiweddarach yn eitem 10. Gwnewch bopeth o fewn eich gallu fel CYS i annog ymarferwyr yn eich ardal leol i gymryd rhan. Po fwyaf o ymatebion a dderbynnir, y mwyaf gwerthfawr fydd y prosiect. Byddwn yn argymell eich bod yn cadw i fyny â holl faterion CCYSSAGauC trwy wefan CCYSAGAUC, yr ydym yn ceisio ei chadw'n gyfredol yn barhaus.

Wrth i ni fyfyrio ar y 30 mlynedd diwethaf o CCYSAGauC, rydym ni hefyd yn edrych ymlaen at ddyfodol y Gymdeithas. Mae'r dyfodol yn ein dwylo ni. Mae llawer o waith i'w wneud. Rhaid inni geisio sicrhau bod CCYSAGauC yn parhau i siarad ar ran ein CYSau yng Nghymru. Dyna lle mae ei chryfder, llais unedig. Llais sy'n cael ei barchu a'i glywed gan y rhai sy'n deddfu ac i sicrhau bod CGM fel pwnc yn parhau i dyfu a ffynnu ac nad yw'n diflannu o lwyfan addysg heddiw. Diolch i'r rhai a sefydlodd CCYSAGauC. Gobeithiwn y byddwn yn parhau â'u hetifeddiaeth.

## 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tyler Saunders, Pwyllgor Gwaith, Ali Ahmed CYS Caerdydd, Ellen Stock CLlC, a Paula Webber, PYCAG.

## 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Zoom, 14 Tachwedd 2024 (Sir Fynwy)

Eitem 8, tudalen 5, newid 7fed pwynt bwled 'Yr asesiadau heb eu harholi, rhywbeth sy'n gwbl newydd i'r proffesiwn addysgu' i'w newid i 'Yr asesiadau heb eu harholi, rhywbeth sy'n gwbl newydd i athrawon Addysg Grefyddol.'
Gyda'r gwelliant hwn cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2024.
Bydd EE, y Cadeirydd, yn llofnodi'r cofnodion i nodi mai dyma'r fersiwn derfynol ac yn rhoi'r copi hwn wedi'i lofnodi i AP i'w ffeilio.

## 5. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Un mater yn unig yn codi, cytunwyd y dylid arddangos rhestr o ymgynghorwyr yr ALl ar wefan CCYSAGauC.

Pob mater arall i'w trafod yn agenda heddiw.

Diolchodd RT i EE a PW (PYCAG) am y geiriau caredig wrth i MAGC gael ei ddiddymu. Ar wahân i hysbysu'r comisiwn elusennau, mae popeth bellach wedi'i gwblhau. Mae gan RT y ddolen i'r copi o'r llyfr.

## 6. Cynhadledd CCYSAGauC

**<u>Papur costau</u>**

Rhannwyd y papur costau gyda'r aelodau.

JM: Gwnaeth sylwadau ar lwyddiant y gynhadledd. Roedd yn gynhadledd ardderchog gydag adborth cadarnhaol a dderbyniwyd ar y diwrnod ac ar ôl y gynhadledd. Roedd y siaradwyr yn ysbrydoledig, ac mae'r cyflwyniadau allweddol ar gael i'w gweld ar wefan CCYSAGauC.

Cyfanswm cost y gynhadledd oedd £17,235.24. Cyflwynodd JM y dadansoddiad a oedd wedi'i fanylu ar y daflen gostio.

RB: Oes posibilrwydd o gynhadledd arall? A fydd hi'n cael ei chynnal ddwywaith y flwyddyn?
JM: Gall gymryd blwyddyn neu ddwy i gronni arian i wneud rhywbeth ar y raddfa hon.
LJ: Mae'r Pwyllgor Gwaith wrthi'n ystyried dyddiadau posibl ar hyn o bryd, efallai hyd yn oed mor gynnar â thymor yr hydref. Ni fydd ar yr un raddfa â mis Mehefin 2024 ac efallai y bydd ar-lein.
LB: Pa gronfeydd wrth gefn sy'n weddill ar ôl y treuliau hyn?
JM: Mae'r cyfrifon tua £40,000. Mae cronfeydd wrth gefn wedi bod yn cronni. Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd y llynedd oedd £9,900.
RT: Cynhaliwyd cynadleddau yn ôl yr angen. Pwysig adeiladu cronfeydd.
RJ: Cytunaf fod angen cynhadledd, fodd bynnag, roedd y sesiynau hyfforddi cyn ac ar ôl y gynhadledd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, a byddai unrhyw hyfforddiant pellach i gefnogi gweithrediad ein TGAU CGM / Astudiaethau Crefyddol yn cael ei werthfawrogi'n ddiolchgar.
LJ: Cydnabu sylwadau RJ

**GWEITHREDU:** Papur costau'r gynhadledd i'w anfon at bob CYS.

## 7. Ffilm CGM

Adroddodd LJ:

> Anfonwyd y ffilm at holl glercod CYS, PYCAG, ymgynghorwyr, Lynn Neagle ac Esgob Llandaf. Cafodd ei huwchlwytho yn syth hefyd i wefan CCYSAGauC i bawb ei gweld. Gwelwyd y ffilm gan amryw o athrawon, ymarferwyr, cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (LlC) a sefydliadau cenedlaethol eraill y mae CCYSAGauC yn partneru â nhw. Derbyniodd CCYSAGauC adborth cadarnhaol ac roedd y gefnogaeth i'r ffilm yn ysgubol. Soniodd rhai athrawon eu bod eisoes wedi'i defnyddio yn eu hystafell ddosbarth i ysgogi trafodaeth ac efallai y byddant yn ei defnyddio ar gyfer diwrnodau agored i'r ysgolion cynradd.
>
> Roedd cydweithwyr Llywodraeth Cymru (LlC) yn gwerthfawrogi'r ffilm yn fawr ac wedi eu plesio ganddi. Cytunodd LlC i rannu'r ffilm drwy eu grwpiau mewnol ac allanol. Mae hefyd wedi'i chynnwys ddwywaith yn Dysg.
>
> Rydym yn dal i aros i glywed yn swyddogol gan Lynn Neagle, ac Esgob Llandaf gyda'u sylwadau.

Rhannwch y ffilm ac anogwch eraill i rannu'n eang. Os oes gennych unrhyw syniadau ynglŷn â sut y gallwn barhau i'w rhannu, rhowch wybod i mi. Diolch yn fawr iawn am yr holl sylwadau rydyn ni wedi'u derbyn a diolch i bawb am eich cefnogaeth.

EE: Mae rhai ysgolion uwchradd yn defnyddio'r ffilm mewn nosweithiau opsiynau.
DG: Mae fforwm Llais yr Ieuenctid CSC ac EAS ar gyfer CYSAG/CYS yn cynhyrchu eu fersiynau eu hunain o'r ffilm. Cawsant eu hysbrydoli ganddi.
JM: Cost y ffilm oedd £10,341.50 a oedd yn cynnwys rhodd o £150.41 i'r unigolyn a oedd yn serennu yn y ffilm.
TAS: Cadarnhawyd bod y ffilm ar YouTube:
https://www.youtube.com/watch?v=mdFxWoCvqzo&t=1s

## 8. Cyflwyniad PYCAG

Cyflwynodd PL 'Adroddiadau Blynyddol CYSAG' - mae copi o'r cyflwyniad i'w anfon gyda'r cofnodion hyn.

Y camau nesaf:

- Mae angen ailysgrifennu'r ddogfen gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r gofynion.
- Ystyried cynnwys cynllunio ymlaen llaw yn ogystal â myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf.
- Adolygiad o adroddiadau blynyddol yn rheolaidd. Nodi arfer da a rennir wedyn.
- Mae CCYSAGAauC yn cyfarfod â LlC i drafod diweddariad y ddogfen a'r adolygiad blynyddol.

RB: Anogodd y cynllun sy'n edrych ymlaen. Defnyddiol ar gyfer targedu a dyrannu cyfrifoldeb.

**GWEITHRED** : Y CYSau i ychwanegu hyn at eu hagenda i drafod yr hyn sydd ei angen arnynt ar eu hadroddiadau blynyddol ac adborth i PYCAG a fydd wedyn yn trafod gyda LlC.

## 9. Materion Llywodraeth Cymru [LlC]

**<u>Cyfarfodydd tymhorol arferol gyda chydweithwyr LlC</u>**

Adroddodd LJ:

Roedd y cyfarfod diweddaraf ar 14 Ionawr 2025. Yn bresennol o CCYSAGauC roedd EE, TaS ac LJ, ac yn bresennol o LlC oedd Alison Tom (AT) a Pauline Smith (PS). Roedden ni wedi cyfarfod ag Amy yn flaenorol, sydd bellach wedi gadael. Mae LlC yn chwilio am olynydd.

Rhoddwyd diweddariad ar Adnodd sef y tîm sy'n gyfrifol am gomisiynu adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Tîm dan arweiniad Dr Ali Hanbury gydag Elliw Roberts a Dyddgu Morgan-Hywel. Ar hyn o bryd yn asesu'r angen am adnoddau newydd, yn benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru mewn CGM. Mae'r tîm yn deall pwysigrwydd edrych yn feirniadol ar unrhyw adnoddau a ddewisir.
Mae LJ a JHR ill dau, fel arbenigwyr AG, wedi cyfarfod â'r tîm hwn i gefnogi eu gwaith.
Gwnaeth Llywodraeth Cymru y penderfyniad na fydd Hybiau AG yn cael eu rhoi ar Hwb.
Mae LlC wedi anfon rhestr o adnoddau newydd y mae Sally Llewellyn wedi'u casglu at CCYSAGauC a fydd yn ymddangos ar Hwb yn fuan.
Ar hyn o bryd mae Canolfan San Silyn yn adolygu adnoddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 i 7 oed a fydd hefyd yn ymddangos ar Hwb.
Trafodwyd adroddiad Bangor. Teimlai Llywodraeth Cymru fod maint y sampl yn rhy fach a bod problemau hirdymor gyda'r ymchwil. Nid oedd yr adroddiad yn ddigon cynhwysfawr i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru.
Gyda thristwch, adroddwyd bod Kevin Palmer yn ddifrifol wael. Mynegodd CCYSAGauC ei dymuniadau gorau i Kevin Palmer a'i deulu.

Mae hyn yn golygu bod prosiect CCYSAGauC ynghylch hyfforddiant cychwynnol athrawon ac uwchsgilio athrawon wedi'i ohirio. Bydd AT yn cysylltu â Max White a arferai weithio gyda Kevin Palmer i gael y wybodaeth ddiweddaraf.
Roedd AT yn hynod gadarnhaol ynglŷn â ffilm CGM CCYSAGauC a gwnaeth sylwadau ar sut roedd yn cefnogi cwmpas ehangach CGM ac yn darparu persbectif gwych ar CGM mewn ffordd hygyrch. Mae wedi'i gynnwys yn Dysg. Yr eitem olaf ar yr agenda oedd adroddiadau blynyddol CYS y mae PL newydd eu cyflwyno.
Cyfarfu PYCAG a CCYSAGauC ar 10 Chwefror i drafod yr adroddiadau blynyddol, a bydd cynnig yn cael ei rannu â LlC.
Cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer ar ôl y Pasg, dyddiad i'w gadarnhau

**Dysgu proffesiynol ar gyfer CGM (rhestr chwarae Llywodraethwyr)**
Adroddodd LJ:
Ers y prif gyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd, mae rhestr chwarae'r llywodraethwr o'r wedi'i chyhoeddi o'r diwedd. Mae'n llinell sylfaen o wybodaeth y bydd llywodraethwyr yn ei chael yn ddefnyddiol. Mae'r ddolen i'r rhestr chwarae wedi cael ei hanfon at y CYSau. O'r fan honno mae angen ei rhannu gyda'r Llywodraethwyr. Mae ar gael yn adran adnoddau Hwb.
Dolen yma:
https://hwb.llyw.cymru/ystorfa/adnodd/eef7e399-93bb-4d7c-ab68-145c93f4c6d3/trosolwg

RJ: Mae Ceredigion wedi rhannu'r ddolen i restr chwarae'r llywodraethwr yn eu cylchlythyr gwanwyn i lywodraethwyr.

**GWEITHRED** : CYSau i wirio bod dolen rhestr chwarae'r llywodraethwr wedi'i rhannu gyda'r Llywodraethwyr.

**10. Ymchwil a gefnogwyd gan CCYSAGauC - Prosiect Llais yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru**

Cyflwynodd TaS: Prosiect Llais yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Anfonir copi o'r cyflwyniad gyda'r cofnodion hyn.

TaS: Mae pum sefydliad yn cydweithio ar y prosiect hwn: Canolfan San Silyn Wrecsam; Prifysgol Esgob Grosseteste; Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cymorth Addysg Castell-nedd Port Talbot ac Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd.
Mae arolwg yr ymchwil yn cynnwys elfennau meintiol ac ansoddol ac mae'n cynnwys athrawon yng Nghymru sy'n gweithio mewn cyd-destun ysgol neu leoliad 3 i 16 oed. Fe'i cynlluniwyd i gael mynediad uniongyrchol at brofiadau ac ymgysylltiad athrawon â newid cwricwlwm yng Nghymru. Mae'r ffocws yn benodol ar CGM. Cafodd moeseg ymchwil yr arolwg ei chymeradwyo a'i chanmol yn fawr gan baneli moeseg ymchwil dwy brifysgol, Prifysgol Esgob Grosseteste a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Nod yr arolwg yw llywio deialog broffesiynol a dysgu proffesiynol, yn lleol ac yn genedlaethol.
Prif rôl CCYSAGauC yw hyrwyddo a dosbarthu'r arolwg a'i ganfyddiadau.
Manylwyd ar gynllun a chynnwys yr arolwg yn sleidiau 11-19.
Derbyniodd pob CYS yr arolwg ddiwedd mis Ionawr a bydd yn cael ei rannu'n ehangach gydag ymarferwyr.
Mae llwyddiant yr arolwg yn dibynnu ar gynifer o ysgolion ac athrawon â phosibl yn cwblhau'r arolwg. Po fwyaf o ymatebion, y mwyaf gwerthfawr fyddai a'r mwyaf derbyniol fyddai ei ganlyniadau gyda'r cyfle cynyddol i'w ddadansoddi ar lefel leol a chenedlaethol. Helpwch ni fel CYSau i hyrwyddo hwn o ddifrif.
Y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg yw cyn gynted â phosibl erbyn diwedd tymor yr haf.
Dolen i'r arolwg: https://stgilescentre.org/wp-content/uploads/2025/03/SuCGMy-information-attachment.pdf

**CAM GWEITHREDU** : Pob aelod o CCYSAGauC i annog ymarferwyr CGM i gwblhau'r arolwg.

RB: Beth ysbrydolodd yr arolwg ac a yw rhywbeth fel hyn wedi cael ei gynnal o'r blaen?
TaS: Mae'r arolwg penodol hwn yn newydd gan ei fod yn canolbwyntio ar CGM ac nid yw wedi'i gynnal o'r blaen. Nawr yw'r amser iawn i gynnal yr arolwg hwn gan y gall ysgolion uwchradd gyfrannu bellach yn ogystal ag ysgolion cynradd. Rydym yn gobeithio cynnal yr arolwg yn rheolaidd i olrhain cynnydd.
JHR: A oes cost i'r ymchwil hwn?
TaS: Y Prifysgolion a Chanolfan San Silyn sy'n talu am yr arolwg. Nid oes unrhyw gost i CCYSAGauC.
RJ: Beth yw'r ymateb hyd yn hyn?
TaS: Dydw i ddim wedi edrych yn fanwl gan ei bod hi'n rhy gynnar ond mae'r ymatebion sydd wedi dod i law wedi rhoi adborth manwl.
RB: Arolwg manwl ardderchog sy'n gefnogol hefyd.

**11. Cymwysterau**

RS: Adroddodd yn ôl ar yr ymgynghoriad ar y cynnig ehangach. Roedd CCYSAGauC wedi codi pryderon yn flaenorol ynghylch un o deitlau'r uned yn y gyfres sgiliau. Ar y ddogfennaeth ddiweddaraf mae'r teitl wedi'i newid i 'Ffydd a Chred yn y Gymuned'.

LJ: Cododd CCYSAGauC gwestiwn gyda Cymwysterau Cymru ynghylch a fyddai Cymhwyster Archwilio Bydolygon Agored Cymru yn rhedeg ochr yn ochr â'r gyfres sgiliau am ei flwyddyn olaf ac ar gael i ysgolion i gofrestru dysgwyr hyd at fis Hydref 2027 gyda'r gyfres sgiliau yn cael ei gweithredu ym mis Medi 2027. Mae hyn yn dal i gael ei drafod gyda CC wrth iddynt ystyried hyn a chymwysterau eraill nad ydynt yn TGAU.
OS: Mae'n eithaf cymhleth gan fod llawer o gymwysterau eraill i'w hystyried. Mae angen i ni fod yn gadarn yn y broses rydyn ni'n ei defnyddio, felly mae'n cymryd amser. Bydd penderfyniad ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.
LJ: Cadarnhaodd, pe bai Cymhwyster Archwilio Bydolygon Agored Cymru yn cael ei dderbyn ochr yn ochr â'r gyfres sgiliau yn 2027, mai dim ond am y ddwy flynedd y byddai'r cymhwyster hwnnw'n rhedeg gyda'r dysgwyr penodol hynny. Nid oes gofyn amdano fel gofyniad cymhwyster parhaus.

**•TGAU Astudiaethau Crefyddol**

LB: Mae rhai pryderon ynghylch y TGAU astudiaethau crefyddol newydd, ac a ellir gohirio gweithredu hwn. Rwy'n deall bod hanes, er enghraifft, wedi'i ohirio.
OS: Gwnaed y penderfyniad ar hanes ar y cyd rhwng Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CBAC, ac yn rhannol am fod rhai o'r undebau llafur a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg (ADEW) wedi ysgrifennu at Cymwysterau Cymru. Mae yna gryn dipyn o newid yng nghynnwys hanes.
Rydym yn ymwybodol bod newidiadau yn y TGAU Addysg Grefyddol, yn enwedig yr asesiad di-arholiad, sy'n newid mawr o'r TGAU presennol, ond rydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod y TGAU hwn yn mynd rhagddo ym mis Medi, ac na fydd yn cael ei ohirio.
RB: Rwy'n siomedig bod CC yn bwrw ymlaen heb adolygu hyn. Hoffwn weld safbwynt llawer mwy anturus gan fwrdd TGAU wrth ddatblygu rhywbeth fel y cynllun peilot a ddatblygwyd 30 mlynedd yn ôl a oedd yn gyffrous ac yn ennyn brwdfrydedd y myfyrwyr.
MM: Wrth siarad â chydweithwyr fel athro, mae yna lawer o bryderon am y TGAU newydd. Nid yw athrawon yn barod amdano. Nid ydym wedi derbyn ein hyfforddiant eto yn RCT, mae'n ymddangos bod popeth wedi'i ohirio. Rwy'n credu bod ein hyfforddiant i fod digwydd ar 7 Ebrill, a fyddai'n gadael 11 wythnos ysgol ar ôl i ni baratoi ar gyfer TGAU. Rydym yn bryderus iawn a hoffem i CC ailystyried yr opsiwn o ohirio, hyd yn oed os yw'n achos o ganiatáu i'r papur etifeddol barhau, a chyflwyno'r TGAU newydd ym mis Medi. Mewn blynyddoedd blaenorol pan gyflwynwyd TGAU newydd, rydym wedi cael yr opsiwn o gael y papur etifeddol yn ogystal. Efallai y bydd rhai athrawon yn teimlo'n fwy parod nag eraill i gyflwyno'r TGAU newydd.
OS: Byddaf yn mynd yn ôl a'r syniad o redeg yn gyfochrog. Ystyriwyd hynny ar gyfer hanes, ond ni chafodd ei ystyried yn hyfyw, yn anffodus. Mae rhai pobl wedi bod yn siomedig iawn pan fydd

TGAU yn cael eu gohirio gan ddweud eu bod yn barod i'w addysgu. Byddaf yn mynd â'r pryderon a fynegwyd heddiw yn ôl at CC.
RB: A fyddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y ddarpariaeth yn CA4?
LJ: Cadarnhawyd y bydd llythyr yn cael ei ysgrifennu. Bydd hwn yn cymryd amser i'w gynhyrchu a bydd yn cael ei rannu gyda'r CYSau.

**12. Estyn: Fframwaith Arolygu Newydd**

Adroddodd GM:
Mae hi ychydig yn gynnar ar hyn o bryd i ni allu casglu gwybodaeth am yr arfer sy'n dod i'r amlwg yr ydym yn ei nodi o fis Medi 2024 ymlaen. Gobeithio y bydd diweddariad erbyn y cyfarfod nesaf.
Mae gan y trefniadau arolygu newydd ar gyfer mis Medi 2024 dri maes arolygu:

- Addysgu a dysgu, sy'n caniatáu i Estyn siarad yn llawer mwy manwl am yr effaith y mae addysgu yn ei chael ar ddisgyblion, cynnydd a dysgu yn yr ystafelloedd dosbarth, a gwneud y cysylltiad hwnnw'n eglur.
- Lles, gofal, cymorth ac arweiniad.
- Arwain a gwella.

Un o'r pethau allweddol y dylid ei bwysleisio yw nad oes gan Estyn unrhyw ddulliau dysgu ac addysgu a ffefrir. Mae Estyn â diddordeb mewn gweld a yw'r disgyblion yn ymgysylltu ac yn gwneud cynnydd yn eu dysgu, gan ganolbwyntio ar yr effaith y mae addysgu yn ei chael ar ddysgu a chynnydd y disgybl hwnnw yn yr ystafelloedd dosbarth.
Gwahoddir sampl o arweinwyr canol i ddod i gyfarfod â chynrychiolydd Estyn a thrafod gwaith disgyblion gyda nhw ac edrych ar sampl o lyfrau. Bydd Estyn yn trafod y gwaith y mae'r arweinydd canol yn ei wneud yn arweinyddiaeth eu hadran a sut maen nhw'n cyfrannu at y prosesau sicrhau ansawdd hynny i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella o fewn Addysgu a Dysgu o safbwynt y cwricwlwm, sy'n dod o fewn maes arolygu un 'Addysgu a Dysgu'.
Cyn bo hir, bydd Estyn yn cyhoeddi canllawiau i amlinellu ei ddull o arolygu'r cwricwlwm. Rydym yn edrych ar ba mor dda y mae ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwmpasu pob maes dysgu a phrofiad hyd at flwyddyn naw. Rydym yn edrych i weld bod disgyblion yn cael y cyfle hwnnw i gael mynediad at bob maes profiad dysgu. Wrth i ni symud ymlaen nawr at gymwysterau newydd, edrych ar sut mae ysgolion yn darparu'r ehangder o brofiad i ddisgyblion blwyddyn 10. Rydym yn realistig, ni fyddem yn disgwyl i ddisgyblion ymgysylltu â phob datganiad ‘yr Hyn sy’n Bwysig', ond byddem yn disgwyl gweld bod disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i ymgysylltu â phrofiadau dysgu perthnasol a diddorol.
Rydym yn ystyried y canllawiau statudol, ac rydym yn ystyried a yw darparwyr yn bodloni gofynion mandadol, yn enwedig wrth i ni symud ymlaen i weld beth fydd yn digwydd gyda chymwysterau. Rydym yn edrych ar ansawdd y profiad. Rydym yn edrych ar a yw cymwysterau'n cael eu cyrchu ac a ydynt yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Gobeithio y bydd y wybodaeth honno wedyn yn cael ei chynnwys yn ein sylfaen dystiolaeth, sydd y tu ôl i'r adroddiad. Rydym yn adrodd trwy eithriad; byddwn yn adrodd ar gryfderau penodol a meysydd penodol i'w gwella er efallai na fydd cyfeiriad penodol atynt mewn adroddiad.
Mae'r ymweliadau interim yn canolbwyntio'n bennaf ar yr argymhellion o'r arolygiad blaenorol a sut mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r argymhellion hynny. Bydd gweithgareddau'n cael eu teilwra i'r argymhellion yr ydym yn edrych arnynt, felly gallent gynnwys pethau fel teithiau dysgu, arsylwadau, craffu ar waith, cyfarfodydd ag arweinwyr canol, cyfarfodydd ag uwch arweinwyr. Rydym wedi cael rhywfaint o adborth cadarnhaol gan uwch arweinwyr am y cyfleoedd iddynt arsylwi ar y cyd neu ddod ar deithiau dysgu ar y cyd gydag AEM. Mae hyn yn caniatáu i ddeialog broffesiynol ddigwydd ynghylch y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, mewn addysgu a dysgu, yn benodol. Canlyniad yr ymweliadau interim hynny yw llythyr. Maent yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, felly byddant yn amlinellu'r gweithgareddau yr ydym wedi'u cynnal. Byddant yn amlinellu rhai o'r pethau yr ydym wedi clywed amdanynt gan arweinwyr, ond yna bydd gennym ychydig o gwestiynau dim ond i helpu'r ysgol i ystyried y camau nesaf wrth iddynt fynd ati i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwnnw.

RT: A allwn ni ddisgwyl darpariaeth well gan Estyn o ran CGM ac addoli ar y cyd?

GM: O arolygiad 24 mae'r adroddiadau'n llawer byrrach, yn enwedig yn y sector cynradd, ac fe'u hadroddir trwy eithriad. Er y gall ein sylfaen dystiolaeth gynnwys y wybodaeth yn y cefndir, ni fydd pob agwedd o fewn fframwaith yr arolygiad yn cael sylw. Mae'n benderfyniad a wnaed yn ganolog i wneud yr adroddiadau mor gryno ac mor glir â phosibl yn canolbwyntio ar gryfderau a meysydd penodol i'w gwella. Mae gennym rai pwyntiau sylw y byddwn yn eu hamlygu, yn enwedig arfer cryf o fewn meysydd cwricwlwm. Ni fydd sylw penodol am y gwaith sy'n cael ei wneud yn CGM o reidrwydd ym mhob ysgol. Efallai y bydd yn dod i fyny fel pwynt sylw, neu efallai y bydd yn dod i fyny fel enghraifft, ond nid yw'n debygol o fod yno, nac mewn adroddiadau yn y dyfodol.
RT: Felly, fyddech chi ddim yn derbyn y ffaith yn ddeddfwriaethol, bod AG yn sefyll yn wahanol i bob pwnc arall yn y cwricwlwm, sef yr unig un sy'n gorfod cynhyrchu maes llafur cytunedig?
GM : Rydym yn edrych ar yr elfennau gorfodol hynny sy'n ddisgwyliedig, gan gynnwys addysg perthnasoedd a rhyw, er enghraifft, a bydd CGM yn rhan o'n sylfaen dystiolaeth, sydd y tu ôl i'r adroddiadau. Ni fydd Estyn o reidrwydd yn cyfeirio ato oni bai bod cryfder clir neu ei fod yn faes i'w wella y mae angen i'r ysgol fynd i'r afael ag ef. Mae adroddiadau Estyn yn edrych ar werthusiad o gryfderau a meysydd i'w gwella. Nid yw Estyn yn defnyddio dull rhestr wirio lle rydym yn ticio a yw ysgolion yn cydymffurfio â phethau.
RT: Dylai'r CYSau unigol fod yn cysylltu â phob ysgol i wirio eu bod yn cydymffurfio.
GM: Dyna gyfrifoldeb CYS yr Awdurdod Lleol i wneud yn siŵr bod ysgolion yn cydymffurfio â'r cwricwlwm lleol.
VB: Yn y canllawiau newydd a grybwyllwyd gennych ar y dull arolygu o'r cwricwlwm, a allai fod cyfeiriad at CGM o fewn hynny'n benodol?
GM: Mae'r canllawiau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'n ymateb i'r ffaith bod y cwricwlwm bellach yn symud y tu hwnt i'r uwchradd, yn enwedig 7 i 9 ac yn mynd i 10 i 11 hefyd. Byddaf yn sicr yn cymryd y sylw hwnnw yn ôl i wirio a oes cyfeiriad penodol at CGM yn y canllawiau hynny.
VB: Efallai y byddai hynny'n lle da i ddyfynnu rhywfaint o'r sgwrs rydyn ni wedi'i chael yma heddiw ynghylch â'r ymagwedd at CGM, wrth arolygu.
RB: Hoffwn i Estyn ailystyried y fframwaith cyfan o adrodd ar eithriadau, yn hytrach na'r holl bethau cadarnhaol a da sy'n digwydd mewn ysgol.
GM: Dydw i ddim yn cytuno, mae'r adroddiadau'n amlinellu'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn ysgolion. Mae'n adroddiad cytbwys ym mhob achos. Mae Estyn hefyd yn cynhyrchu dogfennau cryno ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid, sy'n fwy cryno i ganiatáu i ysgolion gyfleu'r negeseuon allweddol hynny gyda'u cymunedau lleol.

**13. Adroddiad y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2025**

EE: Mae unrhyw faterion a gododd o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith wedi cael eu trafod yn y cyfarfod hwn. Dim ond un eitem i'w chrybwyll sef y cod ymddygiad drafft y mae'r Pwyllgor Gwaith wedi'i baratoi. Anfonwyd hwn allan yn flaenorol a gofynnwyd i'r aelodau am eu sylwadau.
Mae CCYSAGAUC wedi derbyn un sylw yn ôl ynghylch y testun canlynol:

*'Mae hefyd yn bwysig nodi, y tu allan i gyfarfodydd CCYSAGauC, na ddylech byth fynegi barn, na safbwynt, am unrhyw fater yr ydych yn ei ystyried yn farn CCYSAGauC, oni bai bod y Cadeirydd wedi gofyn yn benodol i chi wneud hynny. Ni ddylech byth fynegi eich barn neu'ch safbwynt eich hun mewn modd sy'n arwain eraill i gredu eich bod chi'n mynegi barn CCYSAGauC.*

Ystyriwyd bod y geiriad hwn yn amwys, a'r gwelliant a gynigir yw 'Y tu allan i gyfarfodydd CCYSAGauC peidiwch byth â siarad ar ran CCYSAGauC heb ganiatâd y Cadeirydd.'

Hefyd, camgymeriad teipio ar dudalen 2 i'w gywiro i CGM.

JHR ac RJ: Nid ydynt wedi cael cyfarfodydd CYS eto ac nid ydynt wedi gallu trafod y mater hwn.
JHR: A ddylid cynnwys egwyddorion Nolan yn y cod ymddygiad?
EE: Byddaf yn edrych i weld a oes angen i ni gyfeirio at egwyddorion Nolan cyn ail-anfon y cod diwygiedig at y CYSau. Penderfynwyd cyfeirio llofnodi'r cod ymddygiad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**GWEITHREDU:** EE i adolygu a ddylid cynnwys egwyddorion Nolan yn y cod ymddygiad. Bydd AP ac LJ yn ail-anfon y cod ymddygiad gyda'r gwelliannau a amlinellwyd uchod a chyfeirir at yr eitem yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**14. Diweddariadau:**

**CBAC (Chris Owens)**
Rydym yng nghanol cyflwyno 12 digwyddiad Dysgu Proffesiynol cenedlaethol ledled Cymru. O'r un a fynychais i, ychydig iawn o awydd sydd gan athrawon Astudiaethau Crefyddol i ohirio cyflwyno'r cymhwyster newydd. Bydd gan gydweithwyr fwy o ddeunydd i lansio'r fanyleb newydd ym mis Medi.

Gadawodd EE y cyfarfod a chadeiriodd yr is-gadeirydd RS weddill y cyfarfod.

**REC (Kathy Ruddick)**
KR: Nid oes llawer o eitemau ar yr agenda sy'n effeithio ar Gymru ar hyn o bryd. Mae’r sylw ar Loegr gyda'r Bil Llesiant Plant ac Ysgolion a fydd yn arwain at yr adolygiad cwricwlwm llawn. Trafodaeth fawr am Addysg Grefyddol o ran a ddylent ei gynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol neu a yw'n parhau i gael ei asesu ar lefel awdurdod lleol.
Mae REC wedi datblygu Safon Cynnwys Genedlaethol sy'n debyg i Ganllawiau Statudol Cymru ar gyfer CGM, dolen: https://religiouseducationcouncil.org.uk/resource/national-content-standard-1st-edition-2023/
Mae LJ a KR wedi rhoi adborth ar brofiad Cymru o adolygu'r cwricwlwm. Mae yna ewyllys i geisio cyd-fynd â Chymru.
Mae Lloegr hefyd yn cael trafferth gyda'r cysyniadau ynghylch yr 'Hawl i Dynnu’n ôl.
LJ: Rhai eitemau a allai fod yn berthnasol i Gymru:
- Ailedrych ar y 'Prosiect Cydnerthedd' y bu Cymru'n gweithio arno amser maith yn ôl
- Prosiect traddodiadau Dharmaidd
- Marc Ansawdd – ailddatblygu ar gyfer CGM

Bydd yr eitemau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

**EFTRE (Phil Lord)**
Rhannodd LJ ddau gwestiwn PL.
1) A fydd CCYSAGauC yn noddi athro yng nghynhadledd EFTRE yn Budapest ar 21-24 Awst 2025?
2) A yw'r Pwyllgor Gwaith wedi trafod y syniad o brosiect 'Cynefin o amgylch Ewrop' o ran cyllid posibl?

Eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

**GWEITHREDU** : Y Pwyllgor Gwaith i drafod y ddwy eitem yma: 1) Noddi athro yng nghynhadledd EFTRE a 2) Syniad prosiect Cynefin o amgylch Ewrop o ran cyllid posibl.

**PYCAG (Paula Webber)**
Adroddodd RS nad yw PYCAG wedi cyfarfod yn ystod y tymor hwn. I fod i gyfarfod ar 18 Mawrth.

**Materion lleol / ymholiadau**
Dim wedi'i dderbyn.

**15. Gohebiaeth**

- AP: Cwestiwn gan CYS Wrecsam beth sy'n digwydd gydag adroddiadau blynyddol/a oes cosb os nad yw adroddiad blynyddol wedi'i gyflwyno?

**GWEITHREDU: AP i ddilyn hyn gyda'r Pwyllgor Gwaith.**

- LJ: Gofynnodd DG a fyddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried cyflwyniad ar Sentientiaeth fel bydolwg athronyddol anghrefyddol. Anfonodd DG ddolenni gyda rhagor o wybodaeth. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn trafod hyn yn y cyfarfod nesaf ym mis Mai.

- Ym mis Rhagfyr, ysgrifennodd CCYSAGauC at Cymwysterau Cymru mewn ymateb i gyfathrebiad CC ynghylch yr oedi i fanyleb AG TGAU. Cafwyd ymateb ffurfiol gan Philip Blaker o CC.
-

**GWEITHRED:** Anfon yr ymateb gan CC at bob CYS.

- LJ: Gohebiaeth gan Adnodd ynglŷn ag ymchwil maen nhw'n ei chynnal i sut mae addysgwyr a dysgwyr yn defnyddio Hwb a llwyfannau eraill i chwilio am adnoddau addysgol. Cais am gyfranogiad.
-

**GWEITHREDU:** LJ i anfon yr arolwg at y CYSau a all wedyn ei anfon ymlaen at athrawon.

Cadarnhaodd RS fod pob siaradwr cynhadledd wedi derbyn diolch ffurfiol.

**16. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)**

Dim wedi'i adrodd.

Diolchodd RS i'r aelodau am eu hamser yn y cyfarfod cynhyrchiol hwn.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf (CCB) –** drwy zoom, wedi'i gynnal gan Ynys Môn, dyddiad i'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben am 1.44pm.

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd* /Chair:
The Revd Canon Edward J Evans
15 St Andrews Road, Bridgend, CF31 1RX
e-bost/e-mail: ejevans972@btinternet.com
ffôn/tel: 01656 655511 / 07968 044583

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: ParryA274@hwbcymru.net
*ffôn/tel*: 07779 168084

**Lynne Neagle AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

CaerdyddCF99 1NA

**Pwnc: Cefnogaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mandadol (CGM) yng Nghymru**

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Rwy'n ysgrifennu ar ran Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Cymru ar Addysg Grefyddol (CCYSAGauC) i fynegi ein cefnogaeth barhaus i gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) fel elfen mandadol o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Rydym hefyd yn dymuno ceisio eglurder ar ddull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod y pwnc pwysig hwn o fewn Maes y dyniaethau yn cael ei gefnogi a'i weithredu'n effeithiol ledled y wlad, yn enwedig ym mlynyddoedd 10 ac 11.

Fel y gwyddoch, mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar ysgolion i ddarparu CGM mandadol o 3 i 16 oed gan ystyried y canllawiau CGM statudol. Mae hwn yn gam blaengar sydd i'w groesawu, ac rydym yn falch o weld y gwerth a roddir ar alluogi pobl ifanc i archwilio materion moesegol a moesol ac ystyried bydolygon crefyddol ac anghrefyddol amrywiol.

Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch lefel y blaenoriaethu a'r ddarpariaeth ar gyfer CGM mandadol ym mlynyddoedd 10 ac 11, lle gall pwysau sy'n ymwneud â phynciau arholiad arwain yn aml at gulhau darpariaeth y cwricwlwm. Er y bydd y TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd yn rhoi cyfle i rai dysgwyr astudio'r pwnc yn fanwl, nid yw wedi'i gynllunio i fodloni gofynion CGM mandadol Yn ogystal, nid yw'n ymddangos bod cymwysterau amgen ar gyfer y rhai nad ydynt yn cymryd y TGAU yn bodloni'r gofynion ar gyfer CGM mandadol o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn llawn.

Felly, hoffem gael cyfarfod i drafod y canlynol:

1. **Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi a monitro darpariaeth CGM mandadol yng Nghyfnod Allweddol 4,** gan sicrhau bod dysgwyr yn parhau i gael darpariaeth ystyrlon, heriol ac o ansawdd uchel sy'n cefnogi dilyniant dysgwyr yn unol â'r canllawiau dysgu 14-16?

2. **Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mewn perthynas â CGM?** A oes cyfle i gynnwys CGM mandadol sydd o fewn elfen dysgu a phrofiadau ehangach hawl dysgwyr 14-16, fel rhan o'r mesurau perfformiad newydd i gefnogi cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws awdurdodau lleol?

3. **Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon CGM presennol ac yn y dyfodol,** i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ledled Cymru yn enwedig yn wyneb yr argyfwng recriwtio a chadw presennol?

4. **Pa rôl a ragwelir ar gyfer CYS a CCYSAGauC yn y dyfodol** wrth gefnogi dilyniant parhaus dysgwyr o 14-16 trwy CGM mandadol o ansawdd uchel o fewn y Cwricwlwm i Gymru?

Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ac addysgwyr i sicrhau bod CGM yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith yn y gymdeithas amrywiol hon sy'n newid yn gyflym. Byddem yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu ymhellach ar y materion hyn mewn cyfarfod gyda chi a'ch cydweithwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

*Edward J Evans*

Parchg, Canon Edward Evans
Cadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGC)
Wasacre@outlook.com.